# Prosiect Ymchwil Cynnwys Dinasyddion 50+
# Diweddariad Prosiect 2

## Prosiect:

Sicrhau fod pobl sy'n 50+ yng nghanol y prosesau gwneud penderfyniadau ynghylch comisiynu, cynllunio a darparu gwasanaethau ar gyfer pobl hyn a threfniadau llywodraethol lleol eraill.

## Cyfnod 1: Adroddiad ymchwil cyfredol

Ar gyfer cyfnod cyntaf y prosiect roedd Bwrdd y Prosiect yn teimlo fod yna angen allweddol i ymgymryd ag arolwg o ymchwil cyfredol er mwyn darganfod pa rwystrau sydd wedi cael eu nodi'n barod i sicrhau nad ydynt yn ail-wneud unrhyw beth. Ymgymerodd Sefydliad Iechyd a Gofal Cymdeithasol Cymru â'r gwaith yma ar ein cyfer ac maent wedi creu adroddiad cynhwysfawr. I helpu'r sawl sydd â'r dasg o gysylltu â'r bobl sy'n 50+, mae'r adroddiad hefyd yn darparu rhestrau gwirio defnyddiol i helpu nodi ai peidio os yw darn o waith yn mynd i'r afael â'r rhwystrau a nodwyd. Mae'r adroddiad nawr ar gael drwy wefannau Age Concern Cymru a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (WLGA), lleolir y dolenni we isod.

## Cyfnod 2: Cynlluniau Peilot

Un o ganlyniadau allweddol y prosiect fydd patrymluniau ar gyfer dulliau cysylltu profedig. Mae'r dulliau rydym yn eu profi wedi cael eu dyfeisio ar ôl ymgynghori â phobl hŷn a phobl "proffesiynol" ar draws Cymru.

Mae yna 4 cynllun peilot gwahanol a 4 ardal wahanol - mae Caerffili, Merthyr Tudful, Sir Ddinbych, Caerdydd a'r Fro yn rheg 6 cynllun peilot rhyngddynt.

**Rhwygo'r Rhwystrau:** Mynd â'r broses craffu a/neu gyfarfodydd cyngor allan i'r gymuned i leoliad mwy anffurfiol a hygyrch ar gyfer pobl 50+. Caerffili.

**Rhwydwaith Gofalyddion Gweithwyr:** Mae'r cynllun peilot yma ar gyfer gweithwyr sydd dros 50 mlwydd oed ac yn ofalyddion. Y nod yw eu pweru fel y gallant gymryd rhan lawn yn y prosesau gwneud penderfyniadau ynghylch y gofalyddion perthnasol. Merthyr Tudful.

**Rwy eisiau rhywun i wrando arnai - Defnyddio fideo i ddatblygu a chynnal cysylltiad:** Drwy ddefnyddio fideo mewn lleoliadau cymunedol, mae yna gyfle i bobl hŷn i gyfleu eu barn mewn modd uniongyrchol i'w cyngor lleol. Caerffili a Chaerdydd a'r Fro.

**Y Pŵer i Gysylltu:** Sesiwn hyfforddiant yr Awgrymiadau Orau i gynorthwyo pobl broffesiynol sydd â'r dasg o gysylltu gyda'r cyhoedd. Sir Ddinbych a Chaerffili.

## Lle allai ddarganfod mwy?

Bydd canlyniadau'r prosiect a gwybodaeth yn cael eu rhoi ar 2 wefan allweddol cyn gynted ag y byddant ar gael. Gellir dod o hyd i wybodaeth ar wefan Age Concern drwy'r ddolen ar y dudalen Hafan, **www.accymru.org.uk** neu wefan Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (WLGA), **www.wlga.gov.u**

Os hoffech ddysgu mwy neu os hoffech gyfrannu i'r prosiect mewn rhyw ffordd gallwch gysylltu â:

Mandy Sprague (Cadeirydd Bwrdd y Prosiect)
Swyddog Datblygu ar gyfer Pobl Hŷn yng Nghaerffili,
Uned Polisi, Tŷ Tredomen, Ystrad Mynach, CF82 7WF
E-bost: spragm@caerphilly.gov.uk
Ffôn 01443 864277

Steve Thomas (Swyddog y prosiect)
Swyddog Cyfranogiad a Chynhwysiad 50+ CMGG
CMGG, Uned 1A, Llawr Cyntaf, Cwrt Dyffryn Withey,
Parc Busnes Dyffryn, Ystrad Mynach, Hengoed
E-bost:stephen.thomas@gavowales.org.uk
Ffôn 01443 863540